Pris: 50c

# Papur Pawb

Chwefror 2025 Rhif 506



*Aelodau gwreiddiol Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch yn torri cacen y dathlu. Aileen Williams, Betty Jenkins, Mair Rowlands a'r Is-lywydd cyntaf Ann Jenkins. Stori llawn ar dudalen 8. Llun: Tegwen Morris*


tud 6/7 Ysgol Tal-y-bont
tud 8/9 Merched y Wawr
tud 11 Y Gair Olaf
tud 12 Chwaraeon

# HOLI BARN POBL TAL-Y-BONT

Mae galwad wedi dod i bobl Tal-y-bont ymateb i ymgynghoriad ar gynllun newydd i liniaru llifogydd yn y pentref. Yn ôl y cynllun, sydd wedi ei gyhoeddi gan Gyngor Sir Ceredigion, mae hyd at 18 o dai yn y pentref mewn perygl o ddioddef llifogydd unwaith mewn 5 mlynedd.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ddechrau Rhagfyr 2024 ac mae'n cau Ddydd Gwener $28^{ain}$ Chwefror. Mae'r cynllun llawn i'w weld ar wefan y Cyngor https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cygnor/ymgynghoriadau/cynllun-lliniaru-llifogydd-Tal-y-bont/ ac ar gael o Llyfrgell y Dre, Aberystwyth.

Aeth dros 12 mlynedd heibio ers i 27 o deuluoedd y pentref gael eu gorfodi o'u cartrefi ar yr $9^{fed}$ o Fehefin 2012 wedi i fis o law gwympo mewn 24 awr. Gosodwyd amddiffynfeydd unigol ar dai yn fuan wedi hynny, ond does dim wedi ei wneud uwchlaw'r pentref i osgoi digwyddiad tebyg yn y dyfodol.





*Rhai o'r posteri oedd i'w gweld yn yr ymgynghoriad gafodd ei gynnal yn Neuadd Tal-y-bont ar yr 11eg o Chwefror*

Ers y dechrau bu Grŵp Llifogwyr Tal-y-bont yn ymgyrchu'n ddiflino ar y mater ac fe ddatblygwyd cynllun gan gwmni o arbenigwyr yn 2016. Ond aeth chwe mlynedd heibio cyn i gynrychiolwyr o gwmni WPS ymweld â'r ardal ym mis Hydref 2022, fel rhan o'r gwaith o lunio cynllun newydd. Bu rhaid aros dros ddwy flynedd arall cyn i'r cynllun hwnnw gael ei gyhoeddi gan Gyngor Sir Ceredigion fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus presennol.

Mae'r cynllun yn cynnig pump opsiwn sy'n cynnwys creu ardaloedd storio dŵr uwchlaw Tal-y-bont ar hyd yr afonydd Leri a Ceulan, uwchraddio pontydd a gwaredu coredau sy'n arafu llif y dŵr. Mae cadarnhad hefyd yn y cyflwyniad fod llifogydd 2012 yn ddigwyddiad unwaith mewn 200 mlynedd, a bod newid hinsawdd yn debygol o waethygu'r sefyllfa. Erbyn 2080 maent yn amcangyfrif y bydd 36 o gartrefi yng nghanol Tal-y-bont mewn perygl o lifogydd unwaith bob 100 mlynedd o'i gymharu â 34 unwaith bob 200 mlynedd ar hyn o bryd.

Croesawyd y cynllun, a'r ffordd y mae'n ymgorffori nifer o

*Parhâd tud 2*



## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
**07507 652092**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Helena O Sullivan, Bont-goch
**07812 994 008**

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

**GOLYGYDDION**

Golygwyd y rhifyn hwn gan Phil a Megan gyda Siôn yn dylunio.

Mair (mair.n@btinternet.com) a Betsan (betsanelenid@gmail.com) fydd yn golygu rhifyn Mawrth.

Y dyddiad cau yw 7 Mawrth a bydd y papur ar werth ar 14 Mawrth.

*Parhâd o dudalen 1*

elfennau naturiol o reoli llifogydd, gan aelodau Grŵp Llifogwyr Tal-y-bont. Ond, mae nifer o sylwadau hefyd wedi eu cyflwyno mewn ymateb iddo. Un a fu'n weithgar gyda'r Grŵp yw Mick Fothergill sy'n byw ar lan yr afon Leri. Dywedodd Mick: "Ers llifogydd 2012 rydym wedi gwneud llawer o waith i geisio deall sut y mae'r dalgylch cyfan yn gweithio o ran llif y dŵr er mwyn datblygu cynllun lliniaru llifogydd cynhwysfawr. Cafodd arolwg hydrolegol ei wneud yn 2022 gan Brifysgol Bangor sy'n dangos pa ardaloedd sydd yn cyfrannu fwyaf at yr afonydd. Gallem fod wedi rhannu'r wybodaeth hon gyda'r ymchwiliad presennol petai'r ymgynghori wedi digwydd ar ddechrau'r gwaith."

"Mae'r camau lliniaru hefyd wedi'u cyfyngu i ardal fach, a mwy o bwyslais ar y Ceulan na'r Leri. Mae'r mesurau sy'n cael eu cynnig ar gyfer y Leri yn annigonol ac absenoldeb newidiadau i'r bont ar yr A487 yn golygu na fydd modd rheoli llifogydd o faint 2012. Dyma'r elfen bwysicaf-un ar gyfer gwella'r sefyllfa." Mae effaith hir dymor mwyngloddio yn yr ardal yn ystyriaeth arall meddai.

"Dangosodd astudiaeth yn 2014 gan Brifysgol Aberystwyth fod lefelau uchel o lygredd yn nalgylchoedd y Leri a'r Ceulan (plwm a chadmiwm); hyd at ddeg gwaith yn uwch na'r hyn sy'n dderbyniol. Mi fyddai unrhyw waith yn golygu palu a symud deunydd wedi ei lygru a allai gael effaith drychinebus ar ecoleg yr afonydd. O'r herwydd, dylid ystyried ardaloedd sydd yn uwch i fyny ac heb eu llygru ar gyfer storio'r dŵr."

Yn ôl aelod arall o'r Grŵp, Linda Denton, mae tystiolaeth yn dangos bod rhoi mesurau ar waith yn uwch i fyny'r dalgylch, mor bell â phosibl oddi wrth y pentref, yn allweddol. "Mae hyn yn tynnu'r pwysau oddi ar y system gyfan a'r holl fannau cyfyng gan arwain at lai o fethiannau seilwaith ac erydiad ar y ffordd i lawr," dywedodd. "Mae'r Grŵp Llifogydd gyda chymorth Coed Cadw a Sefydliad Esmée Fairbairn, a Chyngor Cymuned Ceulanamaesmawr wedi bod yn gwneud ein hymchwil ein hunain i'r hyn a allai weithio yn y dalgylch ac yn siarad â chymaint o dirfeddianwyr â phosibl am sut y gallai hyn ddigwydd.

"Eisoes plannwyd 31,000 o goed uwchlaw Tal-y-bont, a'r penwythnos diwethaf cafodd yr argae helygen fyw gyntaf ei phlannu er mwyn arafu llif y dŵr. Yr ydym yn croesawu mwy o wirfoddolwyr. Awn allan dau fore yr wythnos. Cysyllter â Linda: lindalime@myphone.coop"

Wedi i'r ymgynghoriad, sydd yn cynnwys digwyddiad cyhoeddus yn Neuadd Tal-y-bont ar yr 11eg o Chwefror, gau, mi fydd hi'n flwyddyn arall cyn i'r Cyngor gyflwyno cais, yn chwarter cyntaf 2026, am gyllid i wireddu'r cynllun. Hir yw pob aros.

Arthur Dafis
Chwefror 2025

# DYDDIADUR

## CHWEFROR

16 **Bethel** 10 Parch John Tudno Williams

**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

17 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 'Gyrfa fel Nyrs' (Eirian Gravelle)

20 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 5 Gweddi Hwyrol

21 **Cwis** 8 Wildfowler

23 **Bethel** 10 Geraint Evans

**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

27 **Bingo** 7.30 Wildfowler

## MAWRTH

1 **Hwyl Ddewi** gyda Llond Car ac Un yn y Bŵt 6.30 Neuadd Goffa Tal-y-bont

2 **Bethel** 10 Oedfa Undebol Gŵyl Dewi, Morlan Aberystwyth

**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

3 **Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Sioe Tal-y-bont** 8 Ystafell Waelod y Neuadd Goffa

7 **Cwis** 8 Wildfowler

9 **Bethel** 10 Trefniant Lleol, Helen, Rhian a Shân

**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

11 **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** Prynhawn gan yr aelodau

12 **Cymdeithas yr Ofalaeth** 10.30 Horeb, Penrhyn-coch

**Cyfarfod Blynyddol Neuadd Goffa Tal-y-bont** 8

13 **Bingo** 7.30 Wildfowler

## BOB WYTHNOS

**Neuadd Goffa Tal-y-bont** Bore Mawrth 10–12 Cwtsh Cynnes, coffi a chlonc

**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

**CYMDEITHAS SIOE TAL-Y-BONT**

**CYFARFOD BLYNYDDOL**

Nos Lun 3 Mawrth 2025
8:00 yh

Stafell waelod Neuadd Goffa Tal-y-bont

CROESO CYNNES I BAWB

**NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT**

**CYFARFOD BLYNYDDOL**

Nos Fercher 12 Mawrth

8.00 yr hwyr

Neuadd Waelod

CROESO CYNNES I BAWB

**EISTEDDFOD YSGOL TAL-Y-BONT**

Bydd Eisteddfod yr ysgol eleni yn cael ei chynnal yn y Neuadd Goffa ar 21/02/2025. Dewch i gefnogi'r ysgol – croeso i bawb!

# Pobl a Phethe

### Dymuniadau Gorau

Pob dymuniad da i'n hannwyl Avril Bond, Brodawel, Taliesin sy'n derbyn gofal mewn cartref nyrsio yn Llanybydder ar hyn o bryd. Braf iawn clywed ei bod hi'n dechrau gwella.

### Cydymdeimlo


Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Gwyn Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont a'r teulu oll ar farwolaeth trist ei frawd sef yr Athro Geraint H. Jenkins, Blaenplwyf.

### Croeso

Croeso i Sam Lloyd-Williams a'i fachgen bach Flynn, sydd wedi ymgartrefu yn 82 Maesyderi ers ddechrau'r flwyddyn. Mae Sam yn fab i Rhiannon ac Andy, Tynllwyn, ac yn ŵyr i Monica a Simon, Tŷ Newydd. Mae mam-gu a dad-cu wrth eu bodd i gael y teulu bach yn byw mor agos.

### Arddangosfa

Bydd arddangosfa o waith diweddar yr arlunydd lleol Pete Monaghan yn cael ei chynnal yn oriel Ffin y Parc, Llandudno, rhwng 14 Chwefror ac 8 Mawrth. Bydd yn cynnwys 32 o weithiau diweddar Pete sydd wedi'u hysbrydoli gan ardaloedd gwledig yng nghanolbarth a gogledd Cymru.




*Un o aelodau tîm Ysgol Penweddig yng Nghwis Pop y Selar oedd Tomos Breeze, Dôl Pistyll, Tal-y-bont. Roedd y cwis yn rhan o ddathliadau'r Siarter Iaith, y Selar a Dydd Miwsig Cymru. Daeth y tîm dan yr enw Pop-Weddig yn ail drwy Geredigion.*

### Tîm Talwrn Tal-y-bont

Unwaith eto eleni mae beirdd Tal-y-bont yn rhoi cynnig ar gystadlu ar y Talwrn ar Radio Cymru. Byddant yn wynebu Y Ffoaduriaid yn Llandeilo ar 4 Mawrth. Darlledir y rhaglen nos Sul 16 Mawrth. Pob hwyl iddynt.

### Wyr Newydd

Llongyfarchiadau i Barry a Heather Jones, Llys Terfyn, Tal-y-bont ar enedigaeth eu hŵyr bach newydd Toby Idris a phob dymuniad da i'r teulu bach.

### Yn Gwella

Braf clywed bod Lynn Ebenezer, Maes y felin, Tal-y-bont yn holliach ers ei thriniaeth yn Ysbyty Gobowen sawl wythnos yn ôl.

Bu raid i Iryna, The Coach House, Tal-y-bont gael llawdriniaeth frys yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar ac y mae hithau'n gwella'n ara deg.

### Canu Gyda Fy Arwr

Dros ŵyl y Nadolig darlledwyd rhaglen arbennig ar S4C sef Canu Gyda Fy Arwr. Ffilmiwyd rhan o'r rhaglen yn Hosbis Tŷ Gobaith, Conwy a dyna braf oedd gweld merch o Dal-y-bont, sef Kate (Barron gynt) sydd yn Ddirprwy Bennaeth Gofal yn yr hosbis, yn croesawu'r ddau gyflwynydd a'r canwr Aled Jones yno.

### Cinio Nadolig

Ar ôl cael ei ohirio oherwydd storm ar ddechrau mis Rhagfyr, cynhaliwyd cinio Nadolig i'r rhai dros 60 oed ym mhlwyf Llangynfelyn yn y Wildfowler ar ddydd Sadwrn, 18 Ionawr, a daeth nifer fawr ynghyd i fwynhau'r achlysur. Diolch i aelodau'r pwyllgor am wneud y trefniadau ac i'r Wildfowler am y wledd ardderchog.

### Newyddion Trist

Wrth i'r Papur fynd i'r wasg clywsom y newyddion trist am farwolaeth John Griffiths, Fferm Ffwrnais. Cydymdeimlwn â Non ei wraig a'r teulu cyfan. Bydd cyfle i dalu teyrnged iddo yn rhifyn mis Mawrth.

## Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont









*Uchod: Elan, Caoimhe a Rhian. Canol: Jona, Elan a Caoimhe yn paratoi am y gystadleuaeth dan 16. De: Mari, Elin ac Alaw yn barod i gystadlu*

Bu dydd Sul 26 Ionawr yn lwyddiant mawr pryd y cynhaliwyd cystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymraeg Clwb Ffermwyr Ifanc (CFfI) Ceredigion yn Ysgol Aberaeron. Cafwyd diwrnod hwylus gydag aelodau o glybiau'r Sir yn dangos eu doniau wrth gystadlu, gyda'r beirniaid i gyd yn canmol y safon. Bu yna baratoi brwd i ddau dîm o CFfI Tal-y-bont gyda Mari Evans, Elin Pugh ac Alaw Morgan yn cystadlu o dan 14 oed a Jona Williams, Elan Mabbutt a Caoimhe Melangell yn cystadlu o dan 16 oed. Llwyddodd y tîm o dan 16 gyrraedd yr ail safle yn y gystadleuaeth – da iawn chi! Ac estynnwn ein llongyfarchiadau i Elan am ddod yn gyntaf fel Cadeirydd a Caoimhe yn dod yn ail fel Siaradwr.

Llongyfarchiadau mawr i chi gyd am gymryd rhan ac am arddangos eich doniau a'ch sgiliau gyda balchder a brwdfrydedd. Diolch o galon i Rhian Evans am ei hamser gwerthfawr a'i hyfforddiant amhrisiadwy. Mae ei chyfraniad wedi bod yn hollbwysig i baratoi y timau ar gyfer y gystadleuaeth.

Ela Jones



# Clwb Gwawr y Pennau



Mae criw Clwb Gwawr y Pennau wedi dathlu Nadolig efo cinio Nadolig yn mis Ionawr! Cafwyd noson hwyliog, lot o chwerthin a bwyd bendigedig yn Libanus 1877. Diolch yn fawr i Grug, Peter a'r staff yn cynnwys Elinor Gwynfryn o Dal-y-bont. Mae'r Clwb yn estyn croeso cynnes i aelodau hen a newydd ymuno â nhw.

## Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth

Estynnodd Meinir Fleming groeso a dymuno blwyddyn newydd dda i bawb yn y cyfarfod ar brynhawn Mawrth, 14 Ionawr, yn festri capel Rehoboth. Dr Hywel Roberts, Bow Street, oedd y gŵr gwadd, a gan ei bod yn ddechrau blwyddyn newydd, bu Dr Roberts yn sôn am arferion, traddodiadau a dathliadau blwyddyn newydd – dros y blynyddoedd diflannodd rhai ohonynt ac eraill yn dod yn boblogaidd. Pan yn blentyn cofiai am yr arfer o fynd o amgylch y pentref i ganu am galennig, ond mae'r arferiad yna wedi diflannu mewn llawer man yng Nghymru erbyn heddiw. Ond mae plant yn dal i ganu am galennig yn ardal Cwm Gwaun yn sir Benfro gan eu bod yn dal i ddathlu'r flwyddyn newydd yno ar 13 Ionawr yn ôl yr hen galendr Julian, yn hytrach na dilyn y calendr Gregoraidd a ddaeth i fod yn 1752. Mae canu plygain yn dal yn boblogaidd iawn mewn rhai ardaloedd o hyd, a chynhelir sawl noson o ganu plygain ar ddechrau'r flwyddyn. Hen draddodiad arall yw cario'r Fari Lwyd, sef penglog ceffyl, a mynd o amgylch y tai i ganu a dawnsio, a'r arfer o nofio yn y môr ar ddydd Calan wedi dod yn boblogaidd y dyddiau yma. Soniwyd fod nifer fawr o bobl yn dal i wneud addunedau ar ddechrau'r flwyddyn, ond ymhen amser mae llawer o'r rheiny'n cael eu torri a'u anghofio. Diolchwyd yn gynnes iddo am brynhawn difyr iawn, ac yna mwynhawyd te a sgon wedi eu paratoi gan Aileen Williams a Mair Rowlands.

## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn o'r Cyngor llawn ar nos Lun 27 Ionawr. Ymhlith yr eitemau a drafodwyd yr oedd y ffaith nad oedd y Cyngor Sir am barhau i gynnal y tai bach cyhoeddus yn Nhal-y-bont mwyach, ac effaith hyn ar ddyfodol y cyfleusterau. Bydd mynwent Capel Nazareth yn cael ei throsglwyddo i ofal y Cyngor Cymuned yn y misoedd nesaf. Penderfynwyd y dylid gwahardd cŵn rhag mynd ar y Patshyn Glas er mwyn sicrhau ei fod yn fan diogel i blant chwarae heb unrhyw olion baw. Mae'r Cyngor hefyd wedi gofyn i'r Cyngor Sir osod arwydd unffordd ar y Patshyn Glas o flaen y fynedfa i faes parcio'r Llew Gwyn. Y gobaith yw y bydd hyn yn atal gyrwyr sy'n anghyfarwydd â'r trefniant ffyrdd rhag ceisio ymuno â'r ffordd fawr yn syth o'r heol hon.

Aed ati hefyd i osod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ac adnewyddu'r contract am y gwaith o gynnal a chadw mannau gwyrdd yr ardal am y tair blynedd nesaf. Mis Ionawr, wrth gwrs, yw'r adeg pan fydd cymorthdaliadau'n cael eu dyrannu, a phenderfynwyd rhoi grantiau gwerth £5,500 i helpu mudiadau lleol, sirol a chenedlaethol, fel a ganlyn:

### Mudiadau lleol:

Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont: £200

Clwb Ieuenctid Tal-y-bont: £200

Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont: £500

Clwb Pêl-droed Tal-y-bont: £500

Cylch Meithrin Tal-y-bont: £1,000

Cymdeithas Amaethyddol Tal-y-bont: £400

Cymdeithas Papur Pawb: £400

Neuadd Goffa Tal-y-bont: £1,000

Pwyllgor Clwb ar ôl Ysgol Tal-y-bont: £200

Clwb Brecwast Ysgol Tal-y-bont: £200

Grwp Llifogydd Tal-y-bont: £100

Cymdeithas Maes Chwarae Cae'r Odyn: £300

Cwmni Cletwr: £100

### Mudiadau sirol a chenedlaethol:

HAHAV: £100

Ambiwlans Awyr Cymru: £200

Cronfa Cyfle i Bawb yr Urdd: £100

Ac yn olaf, dewiswyd enillwyr mis Ionawr Clwb 200 Cae Bach: 1af – Jayne Jones; 2il – Kevin Roberts; 3ydd – Eryl Bray. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch.




*Cacen y Dathlu. Stori lawn tud 8 a 9*



# Colofn Elin Jones AS



*Llun: Senedd Cymru*

Wrth i'r dydd ddechrau ymestyn rydyn ni gyd mae'n siwr yn edrych ymlaen i fwynder y gwanwyn ac am fwy o olau dydd, a gobeithio fod y tywydd mwyaf gwyllt wedi pasio. Mae stormydd y gaeaf wedi bod yn arw iawn eleni, ac er bod rhai dal i gael trafferthion yn adfer eu bandllydan, mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau wedi eu hadfer erbyn hyn. Os ydych yn parhau i gael trafferthion, cysylltwch â'm swyddfa os gwelwch yn dda, a gallwn geisio eich cynorthwyo. Mi wnaeth Storm Darragh yn enwedig amlygu ein dibyniaeth gynyddol ar drydan yn ein cartrefi a'n bywyd dyddiol, a bydd angen buddsoddiad i gryfhau ein hisadeiledd trydan a bandllydan wrth i ni drosi ein cartrefi a'n ceir fwyfwy i drydan.

Mae dyfodol rhai o'r gwasanaethau ym Mronglais a Glangwili eto dan fygythiad, yn enwedig gwasanaethau strôc, gyda'r posibilrwydd y gall cleifion strôc orfod symud i Llanelli ar gyfer rhaglen o driniaethau a chryfhau. Rwyf wedi bod yn codi pryderon am hyn gyda'r Bwrdd Iechyd a mi oedd hefyd yn braf i fod yn rhan o gyfarfod torfol yn Aberystwyth ar arbed gwasanaethau ym Mronglais. Bydd tipyn o waith i wneud nawr i ddarbwyllo'r Bwrdd Iechyd i gynnal a gwella y gwasanaethau strôc ym Mronglais.

Roeddwn yn falch o'r cyfle i allu cefnogi protest ar risiau'r Senedd mis yma, yn galw ar Lywodraeth Cymru i helpu sicrhau dyfodol Prifysgol a thref Llambed. Fues i a Cefin Campbell AS yn cadw cwmni i nifer o gyn-fyfyrwyr, ffrindiau'r brifysgol a thrigolion o Lambed sydd hefyd yn gobeithio bydd y Brifysgol a'r Llywodraeth yn sylweddoli pwysigrwydd eu cyfrifoldeb i sicrhau dyfodol i'r campws a'r dref. Mi rydw i'n gobeithio y bydd y Brifysgol yn trefnu cyfarfod cyhoeddus yn y dref cyn hir i drafod dyfodol campws Llambed.

Mae'n gyfnod prysur a heriol i nifer o sefydliadau a gwasanaethau allweddol yng Nghymru a Cheredigion, gyda'u cyllidebau yn dynnach nag erioed. Mae'r setliad gan Lywodraeth Cymru i Gyngor Ceredigion unwaith eto yn is na'r cyfartaledd, ac mi rydw i'n pwyso ar y Llywodraeth am fwy o gynnydd ariannol i gynghorau gwledig fel Ceredigion. Mae cynnal gwasanaethau mewn ardaloedd llai poblog ar y cyfan yn fwy drud yn gyffredinol, ac mae'r boblogaeth is mewn siroedd gwledig fel Ceredigion, yn golygu eu bod yn derbyn llai o gyllid sylfaenol gan y Llywodraeth na awdurdodau lleol mewn ardaloedd mwy poblog.

Cofiwch gysylltu os ydych eisiau unrhyw gefnogaeth neu rannu barn gyda fi. Mae croeso i chi anfon e-bost ataf (elin.jones@senedd.cymru) neu gysylltu â'm swyddfa i drafod ymhellach (01970 624516).








NICEIC APPROVED CONTRACTOR

**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol

**M** 07703 169813

Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com

**Grant Mayhew Ltd**
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

**James Memorials**

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**Adweitheg**
(Reflexology)

Bethan Ifan - Aberystwyth
07375 422 608

**EISTEDDFOD YR YSGOL**

Bydd Eisteddfod yr ysgol eleni yn cael ei chynnal yn y Neuadd Goffa ar 21/02/2025. Dewch i gefnogi'r ysgol – croeso i bawb!

# Ysgol Ta

## Ysgol Iach

### Gala Nofio

Mae mis Ionawr wastad yn brysur yn y pwll nofio i ysgolion Cylch Aberystwyth. Aeth tîm o 16 o'r ysgol i gystadlu unwaith eto eleni, ac fe gafwyd sawl perfformiad arbennig o dda, gyda llawer yn dod yn y 3 uchaf. Da iawn chi gyd am gystadlu mor frwd yn erbyn ysgolion eraill yr ardal a llongyfarchiadau mawr i bawb. Cafwyd dau ail a dau drydydd yn y rasys cyfnewid, cafodd Bess ac Arthur ail yn eu rasys unigol a daeth Mostyn a Daniel yn gyntaf yn eu rasys nhw – gwych iawn.

## Siarter Iaith

### Gwersyll yr Urdd, Llangrannog.

Mae mynd i aros dros nos yn un o wersylloedd yr Urdd yn brofiad hollbwysig yn ein darpariaeth blynyddol. Ers rhai blynyddoedd bellach rydym wedi trefnu gwibdaith i Wersyll yr Urdd Llangrannog yn ystod mis Ionawr ac eleni, tro Dosbarth Allt y Crib oedd hi i fynd, a braf dweud fod pawb wedi mynd eleni. Roedd pob un yn gyffrous iawn cyn dechrau ac fe barhaodd y cyffro am y ddau ddiwrnod. Diolch yn fawr i staff y Gwersyll am ofalu amdanom a diolch o galon i Mrs Jones am bob cymorth ar y daith. Dyma atgofion rhai o'r plant o'r ymweliad –

"Roeddwn i wedi hoffi'r gwibgartio achos roeddwn i'n hoffi cwmpo a bod yn wlyb!" – Alba

"Roeddwn i wedi hoffi'r rhaffau uchel achos rwy'n hoffi dringo ac roedd yn hwyl" – Bess

"Roeddwn i wedi hoffi marchogaeth achos roeddwn i wedi neud o'r blaen ac eisiau gwneud eto" – Morven

"Fe wnes i fwynhau ar y trampolîn achos bod fi wedi bownsio'n uchel" – Lola

"Roeddwn i wedi mwynhau marchogaeth achos rwy'n hoffi anifeiliaid" – Delilah

Roedd hi'n hyfryd i gael cwrdd gyda disgyblion o ysgolion eraill yng Ngheredigion a gwneud ffrindiau gyda phlant Ysgol Craig yr Wylfa fel rhan o'n cynllun Pont yr Wylfa. Diolch i Miss Morris a Miss Griffiths am eich gofal o'r plant ac am bob cymorth hefyd.









### Cynefin ar Gân



Gweithgaredd arall ar y cyd oedd recordio'r gân a gyfansoddwyd cyn y Nadolig gyda ffrindiau o Ysgol Craig yr Wylfa ac ysgolion eraill gogledd Ceredigion i gyd-fynd gydag amcanion Y Siarter Iaith. Roedd ymateb y plant yn frwdfrydig iawn wrth iddyn nhw gydweithio gyda'r cerddor enwog Mei Gwynedd a da iawn Cadi ac Isla am ganu mor swynol fel unigolion. Diolch yn fawr i swyddogion y Siarter Iaith am drefnu ac rydym yn edrych ymlaen at glywed y fersiwn gorffenedig ar Ddydd Miwsig Cymru ym mis Chwefror.

### Dydd Santes Dwynwen

Cafwyd ddigon o hwyl wrth ddathlu Dydd Santes Dwynwen yn yr ysgol ar ddiwedd is Ionawr. Aeth pob dosbarth ati'n brysur i gwblhau gweithgareddau diddorol ac roedd hi'n braf i weld yr holl fedrau creadigol ar waith. Dyma lun o blant Dosbarth Mynydd Gorddu yn paratoi ar gyfer arddangosfa i'r dosbarth.





# l-y-bont

## Ysgol Iach

### Llysgenhadon Lles

Rydym yn hynod ffodus o gael plant cydwybodol yn yr ysgol sy'n cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Yn ystod y mis cynhaliwyd cyfarfod o Lysgenhadon Lles Ceredigion i drafod syniadau ar sut i hybu llesiant yn yr ysgol. Heriwyd pob ysgol i dreialu un peth ar gyfer y cyfarfod nesaf a syniad Llysgenhadon Lles Tal-y-bont oedd cynnal "Sesiwn Siarad" ble bod cyfle i grwpiau bach o blant sgwrsio gyda'i gilydd ar unrhyw bwnc o'u dewis. Cymaint oedd llwyddiant yr wythnos gyntaf fel y penderfynwyd dal ati gyda'r syniad am rai wythnosau eto. Da iawn chi!

### Pwyllgor Eco

Mae'r Pwyllgor Eco wedi bod yn brysur iawn yn ystod y mis yn gwella amgylchedd yr ysgol. Yn dilyn ennill nawdd sylweddol gan Gynllun Grantiau Bach, Cyngor Sir Ceredigion – Lleoedd Lleol i Natur, rydym wedi trawsnewid darn o dir yr ysgol yn warchodfa natur fechan. Wedi plannu'r coed afalau, maent wedi bod yn plannu mwy o blanhigion a gosod pwll dŵr bychan. Rydym yn hynod ffodus i Fiona am gydlynu'r prosiect, i Polly am adeiladu'r darn compostio ac i Siôn am ei amynedd gyda'r llif gadwyn! Rydym yn gobeithio agor y warchodfa'n swyddogol yn ystod Tymor yr Haf.





## Ysgol Greadigol

### Ymwelwyr Arbennig

Mae'r artist Ruth Jên wedi bod mor gefnogol i'r ysgol ers blynyddoedd ac mae'n ffrind arbennig i ni yma yn Ysgol Tal-y-bont. Yn ystod mis Ionawr fe ddaeth i gynnal gweithdy arbennig i ddysgu'r pant y grefft o argraffu. Roedd hyn yn dilyn yr ymweliad i MOMA Machynlleth cyn y Nadolig i weld arddangosfa o'i gwaith. Roedd hi'n hyfryd i groesawu Helen hefyd ffrind arall da iawn i'r ysgol a oedd wedi cydweithio i drefnu'r sesiwn.

### Gwersi Offerynnol

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch yn fawr i'r holl athrawon peripatetig cerdd sy'n dod yma i ddysgu'r plant sut i chwarae offerynnau. Ar hyn o bryd rydym yn cynnig gwersi llinynnau, offerynnau taro, pres, telyn, piano a chwythbrennau – tipyn o gamp! Diolch hefyd i'r rhieni am ymrwymo i'r gwersi.





## Ysgol y Gymuned

### Ymweliad i Barc y Scarlets

Mae ein cysylltiad gyda Chlwb Rygbi'r Scarlets wedi parhau yn ystod mis Ionawr, ac mae'r plant wrth eu boddau'n cael gweld y tîm yn chwarae'n dda ac yn ennill eu gemau. Dyma sylwadau rhai o'r disgyblion gafodd y cyfle i fynd i Barc y Scarlets yn ddiweddar:

"Diolch yn fawr am y tocynnau i weld y gêm rygbi Scarlets yn erbyn RC Vannes. Chwaraeodd y Scarlets yn dda ac roeddwn i'n falch bod Scarlets wedi ennill ond roedd hi'n gêm eithaf agos. Fy hoff chwaraewr yw Gareth Davies." - Daniel.

"Roeddwn i'n hoffi gweld y Scarlets yn sgorio. Fy hoff chwaraewr yw Ellis Mee. Nes i fwynhau'n fawr." - Tomos.

Ac ar ddiwedd y gêm mae cyfle weithiau i gael llun gydag arwr, y tro yma gyda Tom Rogers sydd yng ngharfan Cymru ar gyfer Pencampwriaeth y Chwe Gwlad.

### Clwb ar ôl Ysgol

Diolch yn fawr i Miss Eirian a Miss Kate am eu gwaith gyda'r Clwb. Mae'r Clwb yn mynd o nerth i nerth ar hyn o bryd gyda'r ddwy noson yn llawn dop! Diolch hefyd i Rebecca am y gwaith pwysig o ran gweinyddu'r Clwb.



# Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch yn Dathlu'r Aur



*Aelodau Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch yn dathlu pen-blwydd y gangen yn hanner cant mewn cinio yn y Wynnstay, Machynlleth, yng nghwmni'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol Tegwen Morris. Llun: Tegwen Morris*

Dydd Gwener, 31 Ionawr, aeth aelodau Cangen Tal-y-bont a'r Cylch o Ferched y Wawr i Westy'r Wynnstay ym Machynlleth am brynhawn i ddathlu 50 mlynedd ers sefydlu'r Gangen. Yr oedd yn hyfryd gallu croesawu Tegwen Morris, Cyfarwyddwr Cenedlaethol y mudiad ynghyd â 4 o aelodau gwreiddiol y gangen atom.

Sefydlwyd Merched y Wawr yn genedlaethol yn 1967 yn Y Parc ger Y Bala a mynychai nifer o ferched yr ardal y gangen yn Rhydypennau. Serch hynny erbyn 1974 teimlwyd y byddai'n syniad gweld a fyddai digon o ddiddordeb yn Nhal-y-bont a'r cylch i ddechrau cangen yma. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf i drafod y posibilrwydd yn ystafell waelod y Neuadd Goffa ar 18fed Tachwedd y flwyddyn honno. Roedd 25 menyw yn bresennol ac fe'u hanogwyd i fwrw ymlaen gan Mrs Millicent Gregory, Comins Coch. Heb unrhyw amheuaeth, yr oedd digon o ddiddordeb ac aed ati i sefydlu'r gangen. Yn anffodus, nid yw'r llyfr cofnodion cyntaf ar gael ond gwyddom mai dyma'r swyddogion a gafodd eu dewis yn y cyfarfod cyntaf hwnnw:

Llywydd: Valma Jones, Wern
Is-Lywydd: Ann Jenkins, Tanrallt
Ysgrifennydd: Rita Llwyd, Clydfan
Trysorydd: Muriel Morgan, Llety'r Gôf
Gohebydd y Wasg: Eleri Huws, Tŷ Gwyn
Dosbarthwr Y Wawr: Delyth Jones, Lerry House

Ym mis Ionawr, 1975 y cynhaliwyd y cyfarfod swyddogol cyntaf a hynny gyda noson gymdeithasol a cheir adroddiad ohono yn rhifyn Chwefror o Bapur Pawb.

Croesawodd Falyri Jenkins bawb i'r dathliad ac wrth wneud hynny darllenodd gyfarchion oddi wrth Rita Llwyd, Ysgrifennydd cyntaf y Gangen, Hyfryd oedd cael cwmni Tegwen Morris, Cyfarwyddwr Cenedlaethol y Mudiad. Yn anffodus, roedd Geunor Roberts, y Llywydd Cenedlaethol, yn sâl ac wedi methu ymuno â ni ond anfonodd neges yn llongyfarch y Gangen ac yn dymuno'n dda i'r dyfodol.

Offrymwyd gras cyn bwyd gan Elizabeth Evans. Bu llawer o siarad a hel atgofion yn ystod y pryd, yn arbennig wrth weld y lluniau amrywiol o'r aelodau ar hyd y degawdau a rannwyd gan Falyri. Roedd y lluniau yn dangos diddordebau'r aelodau ym myd pêl-rwyd, tenis bwrdd a theithiau cerdded, yn enwedig y rhai a arweiniwyd gan John a Mai Leeding. Mwynhawyd y bwyd blasus ac wedi i bawb gael eu gwala aethpwyd ymlaen â'r dathlu.

Cyn croesawu'r wraig wadd, rhannodd Megan Mai, Llywydd Rhanbarth Ceredigion ac aelod yn Nhal-y-bont, gyfarchion ar ran y Rhanbarth. Cyflwynwyd Tegwen gan Megan, a chafwyd neges hyfryd ganddi wrth iddi'n hatgoffa o gryfderau'r Gangen. Soniodd fel y bu i'r aelodau lwyddo yn aml mewn campau megis pêl-rwyd a thenis bwrdd yng nghystadlaethau rhanbarth a chenedlaethol. Dyfynnodd hefyd o gasgliad y gangen o enwau anheddau a chaeau'r ardal, gan ein hatgoffa o'r enwau hudolus sydd i'w cael yn y pentref gan ddiolch i ni am eu rhoi ar gof a chadw. Dymunodd Tegwen yn dda i'r gangen i'r dyfodol a dyfynnodd o gân Merched y Wawr i gloi:

O eiriau mwyn fy ngwlad
Fe'u caraf mwy a mwy
Fe bery popeth hardd
Tra paront hwy.

Diolch i'r Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan am lunio cywydd hyfryd i nodi'r achlysur. Delyth Ifan, sy'n aelod yn y gangen, ddarllenodd y gwaith:

### Hanner can mlynedd ers sefydlu Merched y Wawr Tal-y-bont

Hynod yw'r wawr sy'n codi
fin nos yn ein pentref ni.
A gwawr sydd ar ei gorau
er mwyn ei hiaith a'r mwynhau
Cwmni a all godi gwên
a llywio'r dyddiau llawen.

Yn Geulan gyda'n gilydd
a Leri hardd ar ddôl rydd;
mudiad a'i rodiad ar hyd
hynafiaeth Hyddgen hefyd,
a Thre'r-Ddôl lle mae olion
Taliesin y werin hon.

A'i merched prysur wedyn
mor hael â Chymru ei hun.
Yn ei hanes eleni
daw oed ei degawdau hi
at ddathliad, parhad i'r hwyl
a hynny'n gwmni annwyl.

Hanner canrif a rifwyd,
yn griw balch mynnwn greu bwyd
i'r enaid, yna'i rannu'n
haelioni ein cwmni cu.

A heddiw, mae blynyddoedd
ei hanterth a'i gwerth ar goedd;
a chaiff gwawriau'n dyddiau da
gynhesu'r degau nesa'.

Gwnaeth Mair Rowlands, un o'r aelodau o'r dechrau, gacen hyfryd ar ein cyfer, a chyflwynodd Eirian Evans bedair o'r aelodau



*O'r chwith i'r dde: Non Griffiths, Ann Humphreys, Margaret Jones, Rita Llwyd, Eurlys Jones, Betty Jenkins, Diana Jones, Christine Charlton, Jill Roberts, Gill Saunders Jones, Myfanwy James*



*Taith i Fedd Taliesin, Hydref 1992. Enid Gruffudd, Medi James, Mali James, Margaret Jones, Emsyl James, Diana Jones, Tegwen Jones, Ann Humphreys, Mai Leeding, Eurlys Jones, Carys Briddon, Rhian Jones*



*Y tîm Pêl-rwyd yn barod amdani. Myfanwy James, Margaret Jones, Gill Saunders Jones, Gwen Jenkins, Christine Charlton, Eurlys Jones, Betty Jenkins*

gwreiddiol, sef Ann Jenkins, Betty Jenkins, Mair Rowlands ac Aileen Williams gan wahodd, Ann Jenkins, yr Is-Lywydd cyntaf, i dorri'r gacen. Rhannodd Ann atgofion o'r cyfnod cynnar gan gofio, er bod brwdfrydedd amlwg ymhlith y merched, mae'n debyg nad oedd pawb yn hapus, a Phwyllgor y Neuadd Goffa ar y pryd, ychydig yn amheus. O'r herwydd neuadd yr Ysgol Gynradd oedd man cyfarfodydd y Gangen am rai blynyddoedd. Atgoffodd Ann ni o bwysigrwydd defnyddio'r iaith Gymraeg i gymdeithasu, ac mae hynny yr un mor bwysig yn awr ag yr oedd hanner can mlynedd yn ôl.

Cafwyd paned a chacen wrth wylio'r ffilm, 'O'r Gorffennol'. Cyfeiriwyd sawl gwaith yn ystod y cyfarfod at gyfraniad aruthrol Ann Jenkins, fel cofnodydd hanesyddol y Gangen a'r ardal a chanddi oriau di-ben-draw o ffilmiau. Dewisodd Mair Nutting ddarnau o rai o'r ffilmiau i greu ffilm fer i'w dangos. Gwelwyd 'Sioe Ffasiynau'r Gangen' o'r 1990'au, dillad o Siop Oxfam wedi'u dewis gan Margaret Jones, yn cael eu modelu'n osgeiddig gan yr aelodau. Roedd cofnod yno hefyd o ddathliadau'r Gangen 25 mlynedd yn ôl.

Ysgogodd y ffilm fwy o atgofion a hyfryd clywed gan rai o'r aelodau. Soniodd Diana Jones iddi hi ymaelodi ym Medi 1975, yn athrawes newydd yn yr ysgol, ar anogaeth Valma Jones. "Mae'n rhaid i chi ymuno â Merched y Wawr, meddai, "er mwyn i chi ddod i adnabod mamau'r plant". Cofiai Elizabeth Evans ymuno â changen Llambed, yn 17 oed, gyda'i mam a'i mam-gu ac wedyn symud i Gangen Penrhyn-coch cyn symud i'r ardal ac ymuno â'r Gangen. Soniodd hefyd am ei chyfnod yn gweithio i'r Mudiad fel Swyddog Datblygu Ceredigion a Phenfro. Gweneira Williams, yw'r aelod mwyaf newydd a diolchodd hithau am y croeso a gafodd yn y Gangen.

Diolchodd Megan Mai i bawb am eu cyfraniadau gan ddiolch yn arbennig i Falyri Jenkins am yr holl waith trefnu ac ysgogi, y mae hi'n ei wneud fel cysylltydd, gan sicrhau parhad y Gangen. Cyflwynwyd bagiau bach o fylbiau cennin Pedr i bob aelod i gofio'r achlysur.



*Tîm tennis bwrdd y gangen ym 1986. Enid Gruffudd, Megan Brickley, Non Griffiths, Jill Roberts*



*John Leeding a chriw o gerddwyr yn Ionawr 1996*



*Cledwyn Fvchan yn arwain yr aelodau a chefnogwyr ar daith gerdded*

# Sara Davies
# Sesiwn Nos Wener



Cafodd Sesiwn Nos Wener y pleser o groesawu Sara Davies, enillydd Cân i Gymru 2024, i'r Llew Gwyn nos Wener, Ionawr 24ain, ac roedd yn hawdd gweld pam cafodd hi'r wobr. Nid yn unig roedd hi'n aml-dalentog fel cantores, cyfansoddwraig ac fel offerynwraig ar yr allweddellau, ond roedd ganddi bresenoldeb llwyfan carismataidd ac nid syndod oedd deall iddi droi'n gantores broffesiynol ar droad y flwyddyn. Cyn hynny roedd hi'n athrawes ac yn byw yn ardal Llandysul ac hefyd yn arweinydd Côr Y Waun Ddyfal yng Nghaerdydd. Ond yn Y Rhos yr oedd ei gwreiddiau a soniodd Sara am ei dyled lenyddol i'w dau dad-cu wrth iddi lunio geiriau ei chaneuon. Yn amlwg roeddem yng nghwmni merch arbennig o alluog oedd hefyd â'r "Ffactor X" yna a fydd yn gwarantu gyrfa hir a llwyddiannus ar lwyfannau'r genedl. Tenau oedd y gynulleidfa nos Wener ond rhoddodd Sara berfformiad yr un mor broffesiynol â phetai o flaen y miloedd yn Arena Abertawe neu Stadiwm y Mileniwm. Ein braint ni oedd cael mwynhau ei chwmni a'i chaneuon yma yn Nhal-y-bont mewn noson a fydd yn aros yn hir yn y cof.

RG












# Colofn Cletwr

Gaf i ddechrau gyda gair o ddiolch i bawb am eu hanogaeth a geiriau cefnogol ers ymddangosiad y stori am helyntion ariannol Cletwr yn rhifyn Ionawr Papur Pawb? Mae'r Bwrdd, staff a gwirfoddolwyr wedi bod yn gweithio'n galed ers misoedd i ddatrys y problemau, ac mae'n hyfryd gwybod bod ein hymdrechion yn werth chweil, a gweld cynifer o bobl sydd yn teimlo bod Cletwr yn rhan atodol ein cymuned. "Calon y gymuned" yn wir. A diolch o waelod y galon hefyd i'r sawl sydd wedi cyfrannu hyd yn hyn at ein hariannwr torfol ar JustGiving. Bron 400 o bobl wedi rhoi arian at y gronfa, bron ugain mil o bunnau. Anghredadwy. Ac mae ychydig mil ar ben hynny wedi cael ei rhoi yn y siop. Nod yr apêl oedd codi digon o arian parod i barhau tra ein bod ni'n gweithio ar gais am fenthyciad hirdymor ac mae hynny wedi ei gyflawni am y tro (er bod croeso ichi gyfrannu ychydig mwy eto - ein targed yw £30,000). Mae effeithiau eich haelioni i'w gweld eisoes. Mae mwy o stoc yn y siop, felly mae trosiant yn dechrau codi. Mae nifer o gwsmeriaid yn y caffi yn uwch. Rydym wedi ailgyflwyno'r cais am y benthyciad a nawr rhaid i ni aros am benderfyniad, gobeithio o fewn ychydig wythnosau. Ond mae Plan B os maent yn ei wrthod!

Yn y cyfamser, mae bywyd yn mynd yn ei flaen yn Cletwr. Cwsmeriaid yn prynu pethau yn y siop, a chael bwyd a diod flasus yn y caffi. Mae arddangosfa yn yr Oriel, mae digwyddiadau o bob math yn cymryd lle.

Cawsom noson o gerddoriaeth jazz a blues bendigedig gan y Pete Stacey Quartet.



Cynhaliwyd ein hail "Gwledd Gymunedol" - noson o fwyd da, (paratowyd gan wirfoddolwyr), hwyl a chymdeithasu. Dangoswyd ein trydedd ffilm - Belleville Rendezvous, ond i gynulleidfa a oedd yn siomedig o fach. Mae ein sesiynau sgwrsio i ddysgwyr 'Dal Ati' wedi ail-gychwyn ar ôl y 'Dolig, diolch i Diane sy'n eu trefnu. A bydd mwy i ddod yn y dyfodol. Rydym wedi derbyn nifer o gynigion gan grwpiau cerddorol eraill (o bob math - jazz traddodiadol, gwerin a roc caled, ond dim metal trwm. Eto.) Nawr rydym yn ceisio trefnu digwyddiadur am y misoedd i ddod. Gobeithio cawn osgoi gwrthdrawiadau gyda'r sesiynau yn y Llew Gwyn.

Rydym yn meddwl am gynnal y Wledd nesaf ar 7fed o Fis Mawrth, ond heb ei gadarnhau eto. Hefyd, gobeithio bydd ymweliad gan y Prosiect Cinio Syriaid ym mis Ebrill.

Does dim ffilm arall wedi ei drefnu eto. Rydym yn ail-feddwl y trefniadau, gan fod rhaid i ni dalu rhyw £100 am drwydded am ffilmiau 'poblogaidd'. Ond bydd mwy yn y dyfodol agos, gan gynnwys nifer o ffilmiau Cymreig a Chymraeg (os bydd pobl eisiau).

Rydym yn ceisio hysbysebu Cletwr yn llydanach - mae cyfres o bostiadau 'Gair Y Dydd' ar Facebook sy'n dysgu geirfa 'siopa' yn denu sylw. Os ydych chi am gael y newyddion am bopeth sy'n digwydd yn Cletwr, cofiwch ymuno â'n rhestr e-bost wythnosol. Cewch gofrestru ar ein gwefan.

A gair olaf am yr ariannwr torfol. Rydyn ni'n deall ei fod e'n amhosibl i bawb fforddio cyfrannu arian parod i'r gronfa, ond cewch i gyd helpu Cletwr mewn nifer o ffyrdd. Defnyddio'r siop a chaffi yw'r mwyaf pwysig yn y tymor hir. Cymeradwywch Cletwr i'ch ffrindiau a chymdogion. Ond, os OES peth arian sbâr gennych, https://cletwr.com/donate! Diolch eto.

# Teyrnged i Eirlys Huws, Pantgwyn, Bont-goch



Yn Nyffryn Nantlle y ganed Eirlys a hynny yn 1946. Magwyd hi ar aelwyd Onllwyn, Tal-y-sarn yn blentyn ieuengaf i Tom a Mattie Williams, ac yn chwaer fach i Dafydd ac Eluned. Roedd hi'n aelwyd ddiwylliedig iawn, gyda Tom Williams yn ennill ei fywoliaeth am flynyddoedd fel tiwtor cerddorol, yn dysgu plant ac ieuenctid ardaloedd eang yn yr hen Sir Gaernarfon a gogledd Sir Feirionnydd i chwarae'r piano ac i ganu. Roedd ganddo am gyfnod yn y 40au a'r 50au gwmni opereta oedd yn perfformio drwy rannau helaeth o ogledd Cymru. Roedd gan Eirlys hithau lais canu alto dymunol ac fe hoffai chwarae'r gitâr. Bu hithau hefyd yn rhoi gwersi gitâr i nifer o blant. Pan oedd hi ar staff y Llyfrgell Genedlaethol yn y saithdegau cynnar byddai hi a Tegwen Meredith yn canu deuawd gyda pharti noson lawen y Llyfrgell a fyddai'n mynd o gwmpas i ddiddanu cynulleidfaoedd. Yn nes ymlaen fe fu hi hefyd yn aelod o barti canu yn Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth, ac yn canu mewn sawl côr gwahanol.

Ar ôl cael addysg yn lleol fe aeth i Goleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, i astudio'r Gymraeg a Ffrangeg. Wedi graddio dod i Aberystwyth i astudio am y diploma mewn llyfrgellyddiaeth. Wrth ddewis mynd yn llyfrgellydd roedd hi'n dilyn yn ôl traed ei diweddar frawd, Dafydd, a fu'n llyfrgellydd yn Wembley cyn dychwelyd yn ôl i Arfon yn 1974 i weithio yn Llyfrgell Gwynedd. Ar ôl y cwrs diploma, dychwelodd Eirlys i'r gogledd am gyfnod byr i weithio fel llyfrgellydd ysgolion Sir Gaernarfon. Ond roedd hi wedi mwynhau ei blwyddyn yn Aber, ac yn 1969 fe gafodd swydd yn y Llyfrgell Genedlaethol, ac yng Ngheredigion y bu hi wedyn. Roedd y cyfnod hwn yn gyfnod pan oedd y Llyfrgell yn ehangu a llawer o staff ifanc yn cael eu penodi a nifer yn cyfarfod eu partneriaid yno. Bu hwn yn gyfnod hapus iawn i Eirlys, ond yr oedd i'r Llyfrgell ei pheryglon hefyd. Un diwrnod fe aeth Eirlys ar goll yng nghanol y staciau llyfrau yng nghrombil yr adeilad. Ond fe fu'n lwcus; pwy ddaeth heibio i'w hachub ond aelod ifanc arall o'r staff, crwt o Gaerfyrddin o'r enw Richard. Wedi hynny dechrau ymgyfeillachu, ac fe drodd y cyfeillgarwch yn ganlyn ac wedyn yn briodas yn 1971.

Cyn hir fe ddaeth Gwion i'w byd, a'r pâr ifanc erbyn hyn yn byw yn Nhregaron mewn tŷ yn perthyn i Fudiad Adfer. Fe gyfrannodd Richard ac Eirlys i fywyd yr ardal honno hefyd, ac roeddynt ymysg sefydlwyr papur bro Y Barcud. Yn ôl i fyw wedyn i Bow Street ac wedi hynny i Aberystwyth. Roedd Eirlys wedi rhoi'r gorau i'w gwaith pan aned Gwion, ond yn 1983 fe gafodd waith eto, a'r tro hwn ymysg y criw bychan, diwyd oedd yn gyfrifol am Eiriadur Prifysgol Cymru, ac yma y bu Eirlys wedyn tan iddi ymddeol yn 2002.

Teipio oedd prif waith Eirlys, ac yn eithaf buan ar ôl iddi ymuno â'r staff fe ddechreuwyd rhoi'r Geiriadur ar gyfrifiadur. Teipio meddech chi, ond nid gwaith cyffredin oedd teipio gwaith fel Geiriadur y Brifysgol. Roedd angen cywirdeb a manylrwydd arbennig wrth deipio, o ystyried natur bytiog y deunydd, a'r holl ddyfyniadau a geir ynddo mewn sawl math o sillafu o Hen Gymraeg ymlaen i Gymraeg Diweddar. Yn wir roedd Eirlys yn nodedig am ei gallu i deipio gwaith manwl fel hyn yn gywir ac yn gyflym. Roedd dwy gyfrol o'r Geiriadur wedi'u cyhoeddi cyn i'r cyfrifiaduro ddechrau, felly penderfynwyd ôl-drosi'r cyfrolau cyntaf er mwyn cael y cyfan yn electronig ac Eirlys a wnaeth y gwaith hwnnw. Erbyn iddi ymddeol yn 2002, roedd y cyfan o'r Geiriadur ar-lein, ac Eirlys oedd wedi mewnosod y cyfan. Mae'n debyg fod y gwaith o ran hyd yn cyfateb i deipio'r Beibl chwe gwaith drosodd.

Fyddai Eirlys byth wedi gallu gwneud y gwaith trymfawr hwn heb fod ganddi ddiddordeb byw iawn mewn iaith a geiriau. Os gwelwch chi 'ar lafar yn Nyffryn Nantlle' wrth chwilio'r Geiriadur, mae'n fwy na thebyg mai Eirlys oedd ffynhonnell y dystiolaeth. Agwedd arall ar ei diddordeb mewn geiriau oedd ei phleser cyson mewn gwneud croeseiriau a phosau geiriol. Byddai pob Sadwrn yn mynd i gwblhau croeseirau y Daily Telegraph!

Tua'r adeg yr ymddeolodd o'i gwaith y symudodd Richard ac Eirlys i Bont-goch, ac fe wnaethant ymgartrefu yma yn hwylus. Fel capelwyr y magwyd y ddau ohonynt ond roedd y ddau wedi troi at yr Eglwys yn 1992. Buont yn addoli yn Eglwys y Santes Fair pan oeddent yn byw yn y dre, ac wedi hynny bu'r ddau yn ffyddlon iawn i eglwys Sant Pedr, Elerch.

Fe gafodd Eirlys gryn helbulon gyda'i hiechyd yn ystod y blynyddoedd diweddar, ond byddai wastad yn siriol a chroesawgar pan alwai ymwelwyr ac yn ddigon parod i ddweud ei barn am y byd a'i bethau. Roedd hi'n Gymraes ddigyfaddawd ac yn falch iawn o'i gwreiddiau.

Bu Richard, Gwion a Katy yn ofalus iawn ohoni tan y diwedd. Fe fydd llawer ohonom yn gweld ei cholli, ond iddynt hwy a'r teulu y bydd y golled fwyaf yn sicr. Cydymdeimlwn â hwy yn eu galar, hefyd Eluned, chwaer Eirlys a gweddill y teulu. Rydyn yn rhannu eich galar ac yn cofio'n annwyl am un oedd yn hoff gan lawer.

Richard Owen

## Y Gair Olaf



Roedd casglu pethe'n arfer bod yn boblogaidd - llestri, ceiniogau, doliau - ond pa mor boblogaidd yw'r arfer nawr? Dechreuais gasglu pethe anghyffredin yn 2022 - pwyllgorau. Ymuno â'r Cyngor Cymuned daeth gyntaf - awgrym Nest Fronlas, ond dyma oedd pwnc un o'r sgyrsiau diwethaf gyda Dad, sydd siŵr wedi llywio'm mhenderfyniad. O fynychu'r Cyngor, dyma Bleddyn Henllan yn awgrymu ymuno â phwyllgor rheoli'r Neuadd Goffa. Yna, daeth is-bwyllgor Cronfa Cae Bach i fodolaeth.

Tu hwnt i Dal-y-bont, 'dwi'n aelod o Gymdeithas Aredig a Phlygu Gogledd Ceredigion, yn chynrychioli'r gymdeithas yng Nghyngor Cymdeithas Aredig Cymru a phan wnaeth Ceredigion lywyddu cystadleuaeth Cenedlaethol a'r 5 gwlad yn 2023, ymunais â'r pwyllgor Aredig Sirol. Nawr, peidiwch meddwl mai brolio yw hyn. Beth yw hyn yw dylanwad magwraeth Tal-y-bont a'r gymuned amaethyddol (ac ethos CFFI o ddweud IE i bopeth!).

Pan symudais o'r Coleg ym Mangor i weithio i Gaerdydd, wnaeth y diweddar Gwilym Llety'r Bugail betio na fydden i'n dod nôl adre. Credai y bydden i, fel nifer o bobl ifanc, yn cael fy nenu i'r ddinas heb bwriad dychwelyd. OND, o'n i mor sicr mai adre bydden i yn dod, dyna'r bet mwyaf sicr wnes i erioed.

Hoff ran fi o bob un pwyllgor yw dod i nabod pobl, clywed eu straeon a'u hanesion. Mae cynnal a chadw traddodiadau, sefydliadau, a gwasanaethau lleol yn hollbwysig, yn enwedig ar adeg pan mae gymaint o'r ffocws cenedlaethol ar isadeiledd dinasoedd.

Os gewch chi gyfle, os oes amser gyda chi, ymunwch gyda'r cymdeithasau, cynghorau a'r pwyllgorau sy'n cadw ni fynd. Rhannwch eich barn, eich profiad, eich sgiliau a'ch gwybodaeth. Dyma beth sy'n cryfhau cymunedau.

Mererid Watson

# Chwaraeon a Hamdden



## Capten Ceredigion

Llongyfarchiadau i Osian, Awel y Gors, ar gael ei ddewis i chwarae rygbi dros ysgolion Ceredigion eleni. Mae wedi bod yn chwarae yn rheolaidd ers yr Hydref a'n teithio ar hyd a lled y wlad i chwarae gemau. Bu'n ffodus iawn i gael y cyfle o fod yn gapten yn erbyn sir Eryri, wedi llwyddo i sgorio sawl cais ac mae wrth ei fodd gyda'r profiad o gael cyd-chwarae gyda phlant o ardaloedd gwahanol o'r sir.

## Pêl-droed

Mae tîm pêl-droed Tal-y-bont ar frig Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth wedi buddugoliaeth dda o bedair gôl i ddwy yn erbyn Padarn United ar ddydd Sadwrn cyntaf y mis. Mae gan y tîm 5 pwynt o fantais ar Borth United ond mae gan y Borth ddwy gêm mewn llaw. Mae'n debygol mai'r gêm oddi cartref yn y Borth ar 15 Chwefror fydd yn penderfynu tynged y ddau glwb. Beth bynnag a ddigwydd, rhaid llongyfarch Tal-y-bont ar lwyddiannau'r tymor hwn.




## Cofio Alan

*Ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn, bu fawr Alan Prytherch yn 85 mlwydd oed, ar ôl dioddef o gystudd hir yng nghartref Hafan y Waun, Aberystwyth. Dyma ychydig o atgofion personol amdano gan hen gyfaill sydd yma'n canolbwyntio ar alluoedd eang Alan yn y byd chwaraeon, fel sy'n briodol ar dudalen gefn Papur Pawb.*



Deuthum i adnabod Alan yn gyntaf yn fuan ar ôl symud i Dal-y-bont ddiwedd yr 1970au. Roedd y ddau ohonom yn hoff iawn o chwaraeon, er fel un o gymoedd y de, dyn rygbi ydoedd ac nid pêl-droed fel minnau. Serch hynny, roedd y ddau ohonom yn hoff o griced a chawsom sgyrsiau difyr dros beint o dro i dro.

Ym 1979, llwyddais i berswadio Alan i ymuno â thîm criced llwyddiannus y Llyfrgell Genedlaethol. Roedd y rhan fwyaf o'r tîm yn fechgyn ar staff y Llyfrgell ond byddem yn recriwtio ambell i 'ringer' i atgyfnerthu'r tîm. Yn ddiweddarach, pan ail-ffurfiwyd tîm criced Tal-y-bont yn 1981, Alan oedd y dewis amlwg i fod yn gapten. Roedd yn arweinydd naturiol, gyda gwybodaeth eang am dactegau a'r gallu i adnabod gwendidau'r gwrthwynebwyr. Roedd yn fatiwr cyson – yn 'strokemaker' yn hytrach na chlatsiwr ddi-steil. Yn ystod gêm gyntaf y tîm newydd yn erbyn Penparcau sgoriodd gant mewn batiad disglair– tipyn o gamp yn y dyddiau hynny. Ef oedd y capten pan enillodd Tal-y-bont bencampwriaeth Ail Adran Cynghrair Criced Gorllewin Cymru yn haf 1986. Serch hynny, rhoddodd y gorau i griced wedi hynny a threulio mwy o'i amser ar y cwrs golff, ei ddileit arall.

Yn ôl yr hanes, roedd wedi dechrau chwarae golff yn ystod ei gyfnod yng ngholeg Aberystwyth wedi iddo fethu â chael ei ddewis i dîm cyntaf y tîm criced. Daeth yn feistr ar daro'r bêl fach wen gan ennill sawl cystadleuaeth ar gyrsiau Aberystwyth a Borth ac Ynyslas. Tra y byddai'r golffiwr cyffredin yn hoffi tywydd braf a di-wynt i lwyddo, nid felly Alan. Oherwydd ei sgiliau, byddai'n hyderus o ennill pan oedd y gwynt yn cael y gorau ar bawb arall. Cofiaf ef yng nghlwb y Borth yn dyfynnu King Lear: 'Blow, winds and crack your cheeks! rage! blow!'.

Ar wahân i chwarae, byddai Alan ynghyd â'i bartner Sue Wilson, yn hyfforddi golffwyr ifanc y Borth. Mae nifer o'r golffwyr hyn yn ddyledus i Alan a Sue am oriau o hyfforddiant treiddgar. Gwnaed y cyfan o'r hyfforddi yn ddi-dâl, gydag Alan yn benderfynol o gadw ei statws amatur.

Roedd Alan yn ymfalchïo yn ei Gymreictod. Nid oedd yn ofni datgan barn ar bob math o bynciau, nid yn unig am chwaraeon. Coffa da amdano.

GJ

*Rhian*
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
*ffôn* 832 612
07835 525 553